

Health and Social Services Group
Y Gyfarwyddiaeth Gofal Sylfaenol a Gwyddor Iechyd
Directorate of Primary Care and Health Science
Yr Is-adran Gofal Sylfaenol/Primary Care Division

Timau Deintyddol Gofal Sylfaenol; a
Byrddau Iechyd

22 Mai 2020

Annwyl Gydweithwyr,

Wrth inni symud i'r cam nesaf yn yr ymateb i feirws COVID-19, roeddwn yn meddwl y byddai'n ddefnyddiol rhannu'r heriau a'r cyfleoedd sy'n ein hwynebu'n awr o ran adfer gwasanaethau deintyddol. Diben y llythyr hwn yw esbonio'r hyn a gynigir a rhoi amser i dimau deintyddol yng Nghymru baratoi.

Fel y nododd Llywodraeth Cymru yn y cyhoeddiad ***Llacio'r cyfyngiadau ar ein cymdeithas a'n heconomi: dal i drafod***, “Nid oes ateb hawdd. Hyd nes y ceir brechlyn neu driniaethau effeithiol, bydd raid inni fyw gyda COVID-19 a sicrhau bod gennym fesurau i gyfyngu, hyd y bo modd, ar y nifer sy'n cael eu heintio a nifer y marwolaethau, ond gan ganiatáu i'n cymdeithas a'n heconomi weithredu.”

<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-05/llacior-cyfyngiadau-ar-ein-cymdeithas-an-heconomi-dal-i-drafod.pdf>

Yn gyntaf, hoffwn ddiolch o galon i dimau deintyddol ledled Cymru am eu hymdrechion a'u gwaith caled yn ystod y pandemig hyd yma. Bu eich ymateb yn ystwyth ac yn ysbrydoledig. Rydych wedi dangos ymrwymiad gwirioneddol i barhau i ofalu am gleifion, gan ymdrin â'r rhai â phroblemau deintyddol difrifol drwy eu hatgyfeirio at ganolfannau deintyddol brys, ateb miloedd lawer o alwadau ffôn gan bobl a oedd mewn poen ac yr oedd angen gofal brys (gweithdrefn nad yw'n cynhyrchu aerosol) arnynt mewn llawer o ddeintyddfeydd. Mae'r wybodaeth isod yn manylu ar lefel y gwaith a wnaed hyd yma gan ddeintyddfeydd a chanolfannau deintyddol brys.

Gweithgarwch mewn deintyddfeydd yng Nghymru hyd yma:

Cyfnod: 23 Mawrth – 22 Mai 2020	Nifer
Atgyfeiriadau at Ganolfannau Deintyddol Brys	953
Presgripsiynau a roddwyd	22,631
Cleifion a welwyd yn y deintyddfeydd am asesiad brys a gweithdrefnau nad ydynt yn cynhyrchu aerosol	6,933
Galwadau ffôn a dderbyniwyd	95,964
Cyngor a roddwyd o bell	45,154

Mae adfer gwasanaethau yn broses gymhleth ac rydym yn rhan o ddull gweithredu integredig o adfer gwasanaethau gofal sylfaenol ledled Cymru. Ym maes deintyddiaeth, mae angen inni ystyried risg gweithdrefnau sy'n cynhyrchu aerosol ar drosglwyddo COVID-19 ac mae cyflenwadau/argaeledd cyfarpar diogelu personol a argymhellir hefyd yn ystyriaeth. Mae angen cael cydbwysedd rhwng anghenion iechyd y geg cleifion a'r gofyniad bod yn rhaid inni barhau i gyfrannu at gyd-destun ehangach feirws COVID-19 i leihau'r risg o'i drosglwyddo yn y gymuned er mwyn diogelu cleifion, timau deintyddol a chymunedau yng Nghymru.

Mae pob cam a gymerwn yn dibynnu ar barodrydd y boblogaeth yn gyffredinol i barhau i gydymffurfio â chyngor Llywodraeth Cymru er mwyn osgoi lledaeniad yr epidemig. Fodd bynnag, roeddwn am ysgrifennu atoch mor gynnar â phosibl er mwyn rhoi strwythur a therfynau amser ein proses o ddychwelyd fesul cam i ddarparu gwasanaethau deintyddol i chi. Rwy'n ystyriol iawn o'r effaith y mae COVID-19 wedi'i chael ar lawer ohonoch chi a'ch teuluoedd. Cafodd effaith sylweddol hefyd ar ddarparu gwasanaethau deintyddol ledled Cymru. Y flaenoriaeth gyntaf mewn unrhyw gynllun adfer yw'r angen i sicrhau bod eich deintyddfeydd yn parhau'n hyfyw, a chynnal a gwella iechyd y geg yng Nghymru ar yr un pryd. Mae strwythur ein hymateb i COVID-19 i adfer gwasanaethau deintyddol yn angenrheidiol, ond mae'n gyfle i ail-lunio gwasanaethau ac ymateb i rai o'r diffygion yng nghontract cyfredol y GIG, a nodwyd yn y gorffennol.

Mae COVID-19 wedi effeithio ar ymarfer deintyddiaeth y GIG a deintyddiaeth breifat a bydd yn parhau i wneud hynny am rai misoedd i ddod. Bydd angen osgoi defnyddio gweithdrefnau sy'n cynhyrchu aerosol am beth amser eto, ac felly er mwyn rheoli'r risg honno, byddant yn parhau i gael eu cynnal mewn canolfannau deintyddol brys. Yn y pen draw, bydd deintyddfeydd dynodedig, lle y bydd y cyfleusterau a'r cyfarpar yn caniatáu, yn ehangu'r rhwydwaith a'r capasiti hwnnw. At hynny, bydd angen inni roi mesurau cadw pellter cymdeithasol ar waith ym mhob deintyddfa. Bydd effaith gyfunol y ddau fesur hyn yn unig yn lleihau'n sylweddol faint o gleifion y gellir eu trin a lefel y triniaethau clinigol a roddir ledled Cymru. Felly, rwyf am ganolbwyntio ar yr hyn y **gall** timau deintyddol ei wneud. Mae'n hanfodol ein bod yn symud tuag at fodol o gydnabyddiaeth sy'n symud i ffwrdd oddi wrth ariannu triniaeth weithredol a thuag at un sy'n gwobrwyo gwaith *atal* a 'gofal' gweithredol. Mae fframwaith ein hymateb fesul cam i'w weld yn y papur a atodir, lle y byddwch yn gweld pob cam sy'n gysylltiedig â gwahanol lefelau o weithgarwch a ganiateir. Caiff hyn ei adolygu, wrth inni barhau i ymaddasu at yr amgylchiadau newidiol a achosir gan COVID-19.

Ar y cychwyn, hoffwn rannu egwyddorion y model ariannol. O 1 Gorffennaff i 30 Medi 2020, bydd deintyddfeydd â chontractau GIG yn cael 90% o Werth Blynnyddol eu Contract. Mae hyn yn adlewyrchu llai o gostau am ddeunyddiau a gwasanaethau

labordy, ond rydym yn cydnabod y gallai cyfarpar diogelu personol hefyd fod yn gost ychwanegol, felly rydym wedi rhoi taliad chwyddo o 80% o'r lefel gyfredol. Yn y dyfodol, efallai y bydd angen addasu contractau a oedd yn tangyflawni oherwydd anawsterau recriwtio cyn mis Mawrth 2020 a/neu gontractau'r rhai sydd wedi diswyddo staff ers mis Mawrth 2020.

Rydym yn bwriadu dileu targedau Unedau o Weithgarwch Deintyddol yng nghontractau deintyddol y GIG yn ystod y cyfnod hwn. Ni chaiff y targedau hyn eu defnyddio mwyach yng Nghymru i fesur perfformiad na'r ffordd y cyflawnir contract. Bydd y broses hon yn torri'r cysylltiad rhwng gweithgarwch 'triniaeth' a thaliadau. Fel y cyfryw, bydd yn symud y gwasanaethau a ddarperir tuag at fodel sy'n seiliedig ar 'ofal' 'poblogaeth y practis' i gleifion, yn hytrach nag un sy'n rhoi cymhelliant i roi 'triniaeth' glinigol ac ymweliadau adalw mynych dros flwyddyn benodol. Mae hyn yn bwysig yn ein hymateb i COVID-19 gan y bydd yn lleihau lefel y cyswllt a theithio i unrhyw glaf penodol ac yn ategu ein hamcanion strategol ar gyfer deintyddiaeth y GIG¹ i hyrwyddo'r gwerthoedd canlynol:

1. Hyrwyddo mynediad i bawb;
2. Atal ar sail tystiolaeth;
3. Gofal clinigol sy'n seiliedig ar angen;
4. Gofal a roddir gan yr aelod mwyaf priodol o'r tîm deintyddol.

Mae'r gwerthoedd hyn yn ategu ein rhaglen sefydledig i ddiwygio contractau, sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob claf gael Aseiad o Risgiau ac Anghenion Clinigol y Geg (ACORN) a chynllun blynyddol personol sy'n cyfuno atal sy'n seiliedig ar dystiolaeth a gofal. Y rhai â'r angen mwyaf fydd y flaenoriaeth yn ystod y cam cyntaf.

Wrth ddychwelyd fesul cam i ddarparu gwasanaethau o statws Rhybudd Coch, byddwn yn cefnogi deintyddfeydd â chontractau GIG hyd at 90% o Werth Blynyddol eu Contract yn gyfnewid am y canlynol:

1. Bydd pob deintyddfa â chontract GIG yn agor am fwy na chysylltiad o bell dros y ffôn a gofal brys o 1 Gorffennaf 2020;
2. Bydd pob deintyddfa a'i staff yn dilyn Gweithdrefnau Gweithredu Safonol COVID-19 a atodir i'r llythyr hwn;
3. Bydd pob un o gleifion y GIG 'ym mhoblogaeth y ddeintyddfa' yn cael un ACORN cyn 31 Mawrth 2021 mewn camau yn ôl angen (yn dibynnu ar y cyd-destun ehangach);
4. Bydd pob claf yn cael y lefel briodol o ymyriad ataliol sy'n seiliedig ar dystiolaeth a gofal, sy'n seiliedig ar ei anghenion (canfyddiadau ACORN);
5. Bydd pob claf yn cael unrhyw driniaethau angenrheidiol nad ydynt yn cynhyrchu aerosol (a roddir yn unol â'r Gweithdrefnau Gweithredu Safonol);
6. Bydd pob claf y mae arno angen triniaeth frys neu driniaeth nad yw'n driniaeth frys sy'n cynhyrchu aerosol yn parhau i gael ei atgyfeirio at y canolfannau deintyddol brys neu ddeintyddfeydd dynodedig i gael triniaeth (byddwn yn parhau i adolygu hyn yn unol â'r ymateb cenedlaethol i COVID-19);
7. Caiff pob aelod o'r staff (e.e. deintyddion cyswllt a gweithwyr proffesiynol gofal deintyddol) sy'n darparu gofal GIG eu cadw a chaiff eu tâl ei ddiogelu ar lefelau blaenorol er mwyn adlewyrchu eu gwaith i'r GIG.

Mae 40% o ddeintyddfeydd â chontractau GIG ar hyn o bryd eisoes yn rhan o'r rhaglen diwygio contractau. Mae pob un wedi cael gostyngiad o 10% neu 20% yn y targedau o ran Unedau o Weithgarwch Deintyddol. Er i hyn gael ei groesawu, nid yw wedi eu

¹ [Cymru Iachach: Ymateb y Gwasanaethau Deintyddol ac Iechyd y Geg](#)

galluogi i drawsnewid gofal ar raddfa sylweddol. Ni fydd y cyfle i ehangu'r diwygiadau a gynigir ledled Cymru a hwyluso timau deintyddol i drawsnewd y ffordd y caiff deintyddiaeth ei chynnig a'i darparu'n wirioneddol, yn cael ei golli. Rydym yn bwriadu manteisio ar y cyfle hwn i gefnogi pob deintyddfa â chontract GIG, a lliniaru effaith y cyfyngiadau angenrheidiol ar weithdrefnau sy'n cynhyrchu aerosol a nifer y cleifion sy'n cael eu trin. Bydd hefyd yn hyrwyddo gweithgarwch atal a gofal clinigol sy'n seiliedig ar angen, gan ddefnyddio sgiliau'r tîm deintyddol cyfan. Mae'n amlwg na all gweithgarwch deintyddol 'arferol', fel y'i deallwn, ailddechrau yn y byrdymor neu hyd yn oed yn y tymor canolig. Mae'r ansicrwydd ynghylch diogelwch defnyddio gweithdrefnau sy'n cynhyrchu aerosol ym maes deintyddiaeth, a'r angen i gadw pellter cymdeithasol, yn golygu na fydd triniaethau deintyddol, gweithgarwch deintyddol na nifer y cleifion sy'n cael eu trin, ar y lefelau cyn COVID-19, yn bosibl.

Bydd nifer y cleifion sy'n cael eu trin yn parhau i ostwng y Refeniw Taliadau Cleifion a bydd angen rheoli'r risg hon. Er mwyn sicrhau tegwch, bydd holl ddeintyddfeydd â chontractau GIG yng Nghymru yn cael cyllid ar lefel o 90%, ni waeth faint o Refeniw Taliadau Cleifion a gesglir. Mae angen adolygu ac ystyried system Refeniw Taliadau Cleifion sy'n adlewyrchu gwaith cynllunio a gofal cleifion dros flwyddyn yn well. Rydym yn bwriadu ystyried a datblygu taliad symlach, ac o bell o bosibl, i ddefnyddio deintyddiaeth y GIG fesul blwyddyn galendr ariannol (i bob oedolyn sy'n gymwys i dalu).

Gallwn sicrhau newid radical yn y ffordd rydym yn darparu gofal deintyddol sylfaenol yng Nghymru ac, wrth wneud hynny, sicrhau cynaliadwyedd y sector deintyddol drwy gydol y cyfnod trawsnewidiol hwn, mewn termau clinigol ac economaidd. Bydd y lleihad yn nifer y cleifion yn ei gwneud yn bosibl i gynnig ffordd arafach a mwy ystyriol, sy'n seiliedig ar ofal, o ddarparu gwasanaethau deintyddol. Bydd yn rhoi mwy o amser i'r tîm deintyddol ganolbwyntio ar atal a rhoi cyngor personol; yn ogystal â darparu triniaethau nad ydynt yn cynhyrchu aerosol i ddechrau. Ymhen amser, bydd triniaethau nad ydynt yn cynhyrchu aerosol yn ailddechrau mewn ffordd ystyriol, a hynny ar sail angen ac ymgysylltu â chleifion yn hytrach na thargedau.

Mae'r dull gweithredu hwn yn newid ffocws darparu gofal i ffwrdd oddi wrth fesur triniaethau procsi (Uned o Weithgarwch Deintyddol). Ni fyddai monitro gweithgarwch 'sy'n seiliedig ar wellhad' yn hytrach na gofal ar sail angen yn briodol wrth lacio'r cyfyngiadau, o ystyried ei ffocws ar ddarparu triniaethau a thriniaethau sy'n cynhyrchu aerosol. I bob diben, daw Unedau o Weithgarwch Deintyddol yn Uned o Asesiad Deintyddol, a fydd yn cysylltu'n uniongyrchol â chleifion unigol – nifer y cleifion unigryw ym mhoblogaeth deintyddfa. Nid yw'r Uned o Asesiad Deintyddol yn gofrestrriad nac yn daliad y pen. Bydd yn adlewyrchu nifer y cleifion unigryw y mae'r ddeintyddfa yn eu gweld yn y ddwy flynedd cyn diwedd mis Mawrth 2020. Bydd gweithgarwch Unedau o Asesiad Deintyddol rhagweithiol yn disodli Unedau o Weithgarwch Deintyddol: asesiad o anghenion unigol (ACORN), ymyriad ataliol personol a gweithgarwch trin deintyddol i ddiwallu angen a gwella iechyd y geg. Yn ystod trafodaethau adolygu contract canol blwyddyn a diwedd blwyddyn, gellir ystyried nifer y cleifion sy'n cael gofal, eu hanghenion a darpariaeth ataliol ar gyfer Gwerth Blynnyddol y Contract, yn dibynnu'n amlwg ar gyd-destun cam ôl-aciwt COVID-19.

I grynhoi, mae hwn yn gyfle sylweddol i dimau deintyddol yng Nghymru. Mae llawer i'w wneud i baratoi deintyddfeydd a thimau. Bydd timau mewn Byrddau Iechyd, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Addysg a Gwella Iechyd Cymru, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a Llywodraeth Cymru yn gweithio'n uniongyrchol gyda chi, er y bydd hynny o bell, er mwyn sicrhau bod timau practis a gwasanaethu yn cael y cymorth a'r canllawiau angenrheidiol yn ystod yr wythnosau nesaf. Bydd llawer o ddeintyddfeydd sydd eisoes

yn rhan o'r broses o ddiwygio contractau yn barod i gydweithredu â deintyddfeydd y mae'r rhaglen yn newydd iddynt.

Mae hon yn adeg i'r gymuned ddeintyddol ddod ynghyd a gofalu am anghenion iechyd y geg y boblogaeth ar y cyd yn y cyd-destun eithriadol hwn. Mae'r gwaith tîm cydweithredol ym maes deintyddiaeth yng Nghymru mewn ymateb i bandemig COVID-19 heb ei ail ac rwy'n siwr y bydd yn parhau yn y flwyddyn sydd i ddod.

Yn gywir,

Colette Bridgman
Prif Swyddog Deintyddol
Prif Swyddog Deintyddol